

**TREF yng ngogledd Cymru wedi ei goleuo yn y nos i nodi canmlwyddiant arbennig.**

Wedi ei drefnu gan Gyngor Tref y Rhyl a gyda chefnogaeth Cyngor Sir Ddinbych a Theatr y Pafiliwn, trodd y Rhyl yn fôr o wyn, gwyrdd a phiws i nodi 100 mlynedd o ferched yn cael yr hawl i bleidleisio.

Roedd yn rhaid i ferched dan 30 aros am 10 mlynedd arall i gael yr un hawliau, ond roedd Chwefror 6 1918 yn drobwynt i ferched yn y DU gyda chyflwyniad Deddf Cynrychiolaeth y Bobl.

Cafodd Pont y Ddraig y Rhyl, y tŵr awyr a llochesi'r promenâd eu goleuo yn lliwiau'r swffragetiaid, i nodi'r aberthau a wnaed gan y merched a ymgyrchodd am yr hawl i bleidleisio.

Syniad cynghorydd tref y Rhyl, Diane King, oedd hyn.

Meddai hi: "Mae'r canmlwyddiant yn un pwysig – roedd yn drobwynt i ferched. Mae llawer wedi newid ers hynny ac yn gynyddol rydym yn gweld mwy a mwy o ferched ym myd gwleidyddiaeth. Ond dylid cofio'r aberthau a wnaed gan y rhai a ymgyrchodd am yr hawl i bleidleisio a chydnabod hynny. Rydym oll yn mwynhau rhyddid oherwydd y frwydr a ymladdwyd gan ein hynafiaid, felly y tu ôl i'r goleuadau gwych hyn mae neges gref am bwysigrwydd democratiaeth."

Ategwyd sylwadau'r Cynghorydd King gan faer y Rhyl, y Cynghorydd Alan James.

"Ni yw'r unig dref yng Ngogledd Cymru i ddathlu'r digwyddiad hwn fel hyn, ond roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig bod y canmlwyddiant yn cael ei nodi. A, gobeithio, bydd y goleu-adau yn atgoffa pobl sy'n ymladd eu brwydrau eu hunain y gellir cyflawni unrhyw beth," ychwanegodd y Cynghorydd James.

Dim ond y cyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau a gweithgaerddau i'w trefnu gan y cyngor tref eleni oedd y goleuadau hyn, ac mae mwy o wybodaeth i'w gweld yn www.rhyltowncouncil.org.uk

Diwedd

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications